


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Profion darllen a rhifedd yng Nghymru – 2019

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr plant ym Mlynyddoedd 2 i 9

mae addysg
yn dechrau
**yn y cartref**
education
begins
**at home**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth i rieni a gofalwyr | 3 |
| Pam fod gennym brofion cenedlaethol yng Nghymru? | 3 |
| Sut brofion yw'r rhain? | 4 |
| Darllen | 4 |
| Rhifedd (Rhesymu) | 4 |
| Pryd fydd y profion yn digwydd? | 5 |
| Oes rhaid i bob plentyn sefyll y profion? | 5 |
| Beth all y profion ddweud wrthyf am ddysgu fy mhlentyn? | 6 |
| Sut fydda i'n gwybod canlyniadau fy mhlentyn yn y profion? | 7 |
| Beth yw sgôr safonedig ar sail oedran? | 8 |
| Beth yw mesur cynnydd? | 10 |
| Dehongli siartiau'r mesur cynnydd | 11 |
| A ddylwn i helpu fy mhlentyn i baratoi ar gyfer y profion? | 12 |
| Alla i helpu fy mhlentyn i wella ei ddarllen a'i rifedd? | 13 |
| Gwybodaeth ddefnyddiol | 14 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2019

WG37404 ISBN digidol 978 1 78964 990 1

# Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Yn ystod tymor yr haf yn 2019, bydd plant o Flwyddyn 2 i 9 yn sefyll profion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd (rhesymu). Mae'r daflen hon yn egluro beth fydd y profion yn ei olygu a'r hyn fydd canlyniadau'r profion yn ei ddweud am ddysgu eich plentyn.





## Pam fod gennym brofion cenedlaethol yng Nghymru?

Datblygwyd y profion cenedlaethol i'w defnyddio'n benodol yng Nghymru, ac maent yn gyson â'r hyn y mae plant yn ei ddysgu yn ein hysgolion. Mae ysgolion bob amser wedi defnyddio profion amrywiol i asesu perfformiad plant. Mae'r profion cenedlaethol, sy'n seiliedig ar y cwricwlwm yng Nghymru, yn rhoi gwybodaeth fanwl, gyson i athrawon ar ddatblygiad a chynnydd pob dysgwr o ran darllen a rhifedd (rhesymu). Gall y profion ddangos hefyd lle y gallai fod angen cymorth ar rai plant i wella eu sgiliau.

Gan ddechrau yn y flwyddyn academaidd 2018/19, caiff asesiadau personol ar-lein eu cyflwyno'n raddol i ysgolion dros gyfnod o dair blynedd. Dechreuodd hyn gyda rhifedd (gweithdrefnol) ym mis Rhagfyr 2018. Dros amser bydd yr asesiadau ar-lein yn cymryd lle'r profion cenedlaethol presennol sydd ar bapur.

# Sut brofion yw'r rhain?



## Darllen

Mae'r profion darllen yn cynnwys cwestiynau byr yn seiliedig ar ddau neu fwy o destunau. Bydd rhai o'r cwestiynau yn canfod pa mor dda y mae'r plant wedi deall y testun, ac eraill yn anelu at weld a yw plant yn gallu llunio barn am yr hyn y maent yn ei ddarllen. Cyn i'r prawf ddechrau, caiff y plant gyfle i roi cynnig ar rai cwestiynau enghreifftiol fel y byddant yn gyfarwydd â'r mathau gwahanol o gwestiynau.

Mae profion darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pob prawf yn cymryd hyd at awr ond caiff y plant ieuengaf seibiant hanner ffordd drwy'r prawf. Y prawf darllen Saesneg yn unig fydd plant ysgolion cyfrwng Saesneg yn ei gymryd. Mae plant ym Mlynyddoedd 4 i 9 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sefyll y profion darllen yn y ddwy iaith. Dim ond y prawf darllen Cymraeg mae disgwyl i blant ym Mlynyddoedd 2 a 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ei sefyll, er y gall ysgolion ddewis gadael i ddysgwyr Blwyddyn 3 sefyll y prawf darllen Saesneg hefyd.

## Rhifedd (Rhesymu)

Mae'r prawf rhesymu yn mesur pa mor dda y gall plant ddefnyddio'r hyn y maent yn ei wybod i ddatrys problemau bob dydd.

Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael. Mae'r prawf yn cymryd hyd at hanner awr, ond eto, caiff y plant ieuengaf egwyl yn ystod y prawf.



## Pryd fydd y profion yn digwydd?

Bydd ysgolion cynradd yn cynnal y profion rhwng **7 a 14 Mai 2019**. Bydd ysgolion uwchradd ac ysgolion canol yn cynnal y profion rhwng **29 Ebrill a 14 Mai 2019**. O fewn y cyfnod hwn, mae'n rhaid i'r ysgol drefnu amserlen y profion a dylent adael i chi wybod pryd fydd eich plentyn yn sefyll y profion. Gall y plant sefyll y profion mewn grwpiau dosbarth neu mewn grwpiau mwy, efallai yn neuadd yr ysgol.

## Oes rhaid i bob plentyn sefyll y profion?

Dylai'r rhan fwyaf o blant allu sefyll y profion, ond efallai y bydd angen trefniadau mynediad arbennig ar rai ohonynt. Er enghraifft, mae fersiynau print bras a Braille o'r profion ar gael i blant sydd â nam ar eu golwg. Nifer fach iawn o blant fydd ddim yn gallu sefyll y profion. Bydd penaethiaid yn ystyried yn ofalus a ddylai rhai plant sefyll un neu fwy o'r profion.



# Beth all y profion ddweud wrthyf am ddysgu fy mhlentyn?

Gall y profion roi gwybodaeth ddefnyddiol i ychwanegu at yr hyn y mae athro eich plentyn yn ei wybod am ei sgiliau darllen a'i sgiliau rhifedd (rhesymu) o'i waith bob dydd yn y dosbarth. Gall athrawon ddefnyddio'r canlyniadau i nodi cryfderau a hefyd y meysydd ble mae'n bosibl y bydd angen rhagor o help. Efallai y byddant yn rhannu'r wybodaeth hon gyda chi yn ystod cyfarfodydd rhieni.



Fodd bynnag, dim ond profi ystod cyfyng o sgiliau a galluoedd y gall unrhyw un prawf ei wneud. Er enghraifft, ni all y profion darllen roi unrhyw wybodeth am sgiliau siarad, gwrando neu ysgrifennu. Ni fydd rhai plant yn rhoi o'u gorau ar ddiwrnod y prawf. O ganlyniad, ni fydd canlyniadau'r prawf ohonynt eu hunain yn rhoi darlun cyflawn o'u gallu. Mae pob prawf wedi'i gynllunio i fesur cyrhaeddiad ar draws yr ystod disgwyliedig ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Ni fydd y profion yn rhoi gwybodaeth ddibynadwy bob amser am blant sy'n gweithio ar eithaf yr ystod, neu'r tu hwnt i'r ystod ar gyfer eu hoedran.

Mae'n bwysig trafod cynnydd eich plentyn gyda'r athro yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth sydd ganddynt, yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniad un prawf. Mae hefyd yn bwysig cofio nad yw pob plentyn yn datblygu ar yr un raddfa.

# Sut fydda i'n gwybod canlyniadau fy mhlentyn yn y profion?

Erbyn diwedd tymor yr haf, byddwch yn derbyn canlyniadau gan yr ysgol o bob prawf y mae eich plentyn wedi'i sefyll. Dylid darllen y canlyniadau ochr yn ochr ag adroddiad blynyddol eich plentyn.

Mae'r profion yn rhoi dau fath o sgôr, sgôr safonedig ar sail oedran a mesur cynnydd. Mae'r ddau fath yma o ganlyniadau yn wahanol iawn i'r canlyniadau y gallech fod wedi dod ar eu traws mewn sefyllfaoedd eraill (e.e. 9 allan o 10 neu 90 y cant).



# Beth yw sgôr safonedig ar sail oedran?

Nid yw sgôr o '6 allan o 10', er enghraifft, yn dangos pa mor anodd yw prawf neu sut y mae un plentyn wedi perfformio o'i gymharu â phlant eraill sy'n sefyll yr un prawf. Os yw'r rhan fwyaf o'r plant eraill oedd yn sefyll y prawf wedi cael sgôr o 9 allan o 10, yna nid yw 6 yn sgôr dda. Ond os mai 2 allan o 10 oedd cyfartaledd y sgôr, yna mae 6 yn sgôr dda iawn. Mae'r sgôr safonedig ar sail oedran a roddir yn sgil y profion cenedlaethol yn dweud wrthych pa mor dda y mae eich plentyn wedi perfformio o'i gymharu â phlant eraill o'r un oedran (mewn blynyddoedd a misoedd) sy'n sefyll yr un prawf ar yr un pryd. Defnyddir 100 fel y sgôr safonedig gyfartalog ar sail oedran a bydd gan oddeutu dwy ran o dair o'r plant sy'n sefyll y prawf sgôr safonedig o rhwng 85 a 115. Gallai sgôr safonedig sy'n is nag 85, felly, awgrymu bod plentyn yn cael trafferth gyda'r sgiliau darllen neu rifedd (rhesymu) sy'n cael eu profi. Gallai sgôr sy'n fwy na 115 awgrymu bod sgiliau darllen neu rifedd (rhesymu) y plentyn yn arbennig o dda am ei oed.



Mewn rhai achosion, gallai ystod cymhlethdod y cwestiynau mewn prawf olygu nad yw'n bosibl cofnodi sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer plentyn lle mae ei sgiliau darllen a rhifedd (rhesymu) yn datblygu'n arafach na'r disgwyl. Dim ond 'llai na 70' y byddai'n bosibl ei roi. Os bydd hyn yn digwydd, bydd athro eich plentyn yn defnyddio dulliau eraill i asesu sut y mae ei sgiliau yn datblygu. Un o'r pethau y gallai athro ei wneud yw gadael i'ch plentyn ateb cwestiynau prawf y grŵp blwyddyn is i weld a yw hyn yn helpu i gael darlun gwell a lle, o bosibl, y mae angen help er mwyn gweld cynnydd.





Yn yr un modd, dim ond sgôr safonedig o 'mwy na 140' y gellir ei roi i blant sy'n gwneud yn dda iawn gan na all y prawf asesu hyd a lled eu sgiliau. Unwaith eto, bydd athrawon yn gallu rhoi mwy o wybodaeth ichi am allu eich plentyn.

# Beth yw mesur cynnydd?


Mae'r mesur cynnydd yn dangos pa mor dda y mae eich plentyn wedi perfformio o'i gymharu â phob dysgwr arall a wnaeth sefyll yr un prawf o fewn ei grŵp blwyddyn yng Nghymru. Drwy gyflwyno'r canlyniadau yn y ffordd hon, gallwn ddangos a yw eich plentyn yn cadw ei safle o fewn y grŵp blwyddyn dros gyfnod a gallwn nodi patrymau yn ei berfformiad. Cyflwynir canlyniadau pob blwyddyn mewn blociau fertigol. Nodir perfformiad eich plentyn fel '+' o fewn un o'r blociau hyn. Mae'r testun a ddarperir o dan bob canlyniad yn dweud wrthych a yw safle eich plentyn o fewn y grŵp blwyddyn yn weddol debyg i'w safle y llynedd, yn uwch neu'n is. Mae hyn yn seiliedig ar wybodaeth flynyddol o brofion a'r newid ym mesur cynnydd eich plentyn o un flwyddyn i'r llall.

Mae mesurau cynnydd sy'n weddol debyg o flwyddyn i flwyddyn yn awgrymu bod eich plentyn yn gwneud cynnydd cyson o fewn ei grŵp blwyddyn. Mae gwahaniaethau bach o flwyddyn i flwyddyn yn ddisgwyliedig. Drwy ddefnyddio gwybodaeth o brofion blaenorol, mae modd dyfalu beth fydd ystod sgôr disgwyliedig eich plentyn. Mae unrhyw beth sydd y tu allan i'r ystod hwn yn awgrymu mai newid mewn perfformiad sydd i'w gyfrif am y gwahaniaeth. Os yw perfformiad eich plentyn yn uwch neu'n is nag y llynedd, efallai y byddai eich plentyn yn elwa ar gael mwy o gefnogaeth neu her. Bydd modd i athro eich plentyn drafod â chi mewn rhagor o fanylder gynnydd eich plentyn ym mhob agwedd ar ddarllen neu rifedd (nid dim ond y profion) a pha gamau a all gael eu cymryd i wella ei sgiliau.



# Dehongli siartiau'r mesur cynnydd

Mesur Cynnydd: Rhifedd (Rhesymu)




Yn 2019, mae safle eich plentyn yn gyson â'i safle yn 2018.

Daw'r siart enghreifftiol uchod o'r daflen ganlyniadau a gaiff ei chreu ar gyfer pob plentyn a fydd yn sefyll y profion. Caiff mesur cynnydd y plentyn bob blwyddyn ei nodi fel croes mewn bloc mwy tywyll er mwyn dangos sut y mae ei berfformiad yn y prawf yn cymharu â pherfformiad dysgwyr eraill yn yr un grŵp blwyddyn o'r cwricwlwm cenedlaethol. Dengys y siart uchod fod mesurau cynnydd y plentyn yn y Prawf Rhifedd (Rhesymu) Cenedlaethol yn cyfateb i'r cyfartaledd ar gyfer ei grŵp blwyddyn ym mhob un o'r pum mlynedd. Gan mai ychydig iawn y mae'r mesur cynnydd wedi symud dros y pum mlynedd, mae'n cadw ei safle o fewn ei grŵp blwyddyn dros amser. Mae'r frawddeg o dan y blociau yn esbonio bod y newid yn y mesur cynnydd rhwng 2018 a 2019 o fewn ystod disgwyliedig.

Rydym wedi datblygu ffilm fer i roi mwy o wybodaeth am yr adroddiadau ar y Prawf Darllen a Rhifedd (Rhesymu) Cenedlaethol. Ewch i **learning.gov.wales/resources/browse-all/animated-explainer/?lang=cy**.



# A ddylwn i helpu fy mhlentyn i baratoi ar gyfer y profion?

**Na ddylech.**

Rydym i gyd am i'n plant wneud yn dda mewn unrhyw brawf, ond nid yw'r profion cenedlaethol yn pasio nac yn methu plant.

Un darn o dystiolaeth yw'r profion am sgiliau darllen a rhifedd (rhesymu) eich plentyn a'r ffordd orau o baratoi eich plentyn yw gwneud yn siwr nad yw'n poeni.






## Alla i helpu fy mhlentyn i wella ei ddarllen a'i rifedd?

Gallwch, yn bendant! Gall helpu gyda dysgu eich plentyn yn y cartref a thu allan i'r cartref wneud gwahaniaeth mawr i'w ddatblygiad. Byddai unrhyw un o'r canlynol yn help mawr.

- Darllen a siarad am unrhyw fath o destun megis llyfrau, cylchgronau, tudalennau ar y we, taflenni, hysbysebion.
- Defnyddio rhifau wrth siopa, cynllunio teithiau, edrych ar sgoriau pêl-droed, amser rhaglenni teledu.
- Gwneud gweithgareddau gyda'ch gilydd lle mae angen darllen a defnyddio rhifau, er enghraifft coginio, chwarae gemau bwrdd, gwylio chwaraeon neu gymryd rhan ynddynt, ysgrifennu negeseuon e-bost.
- Trafod geiriau a rhifau rydych yn dod ar eu traws o ddydd i ddydd.
- I gael syniadau hwyliog am ffyrdd o helpu eich plentyn gartref, cymerwch olwg ar y wefan **www.facebook.com/dechraucartref**

# Gwybodaeth ddefnyddiol

Cewch ragor o gyngor a chanllawiau ar gynorthwyo eich plentyn â darllen a thrin rhifau drwy edrych ar y gwefannau canlynol.

**Mae addysg yn dechrau yn y cartref.**
**Bydd y pethau yr ydych yn ei wneud yn y cartref yn helpu eich plentyn i wneud cymaint yn well yn yr ysgol.**
Am syniadau, ewch i:

**facebook.com/dechraucartref**

**@dechraucartref**

**Addysg Cymru** – gwybodaeth am addysg yng Nghymru. **facebook.com/addysgcymru**

**BookTrust** – cyfres o raglenni a phrosiectau i helpu pobl o bob oed a chefndir i fwynhau darllen ac ysgrifennu. **www.booktrust.org.uk/cymru**

**Prydau ysgol am ddim** – ydy eich plentyn chi'n gymwys? Ewch i **www.llyw.cymru**, yna ddewiswch 'Pynciau', 'Addysg a Sgiliau' a 'Bwyd a diodydd mewn ysgolion' o dan 'Ysgolion'.

**MEIC** – gwasanaeth llinell gymorth cyfrinachol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, sy'n cynnig cymorth ar faterion o bob math, o ddarganfod beth sy'n digwydd yn eich ardal leol i helpu i ddelio â bwlio. **www.meiccymru.org**

**Sialens ddarllen yr haf** – anogaeth i ddarllen drwy'r gwyliau haf. **www.summerreadingchallenge.org.uk**

**Hwb** – y platfform dysgu, yn llawn adnoddau defnyddiol. **hwb.llyw.cymru**

**Cangen Adnoddau'r Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru** – mae'r gangen hon yn comisiynu adnoddau addysgol Cymraeg a dwyieithog i gefnogi holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r adnoddau ar gael ar ffurf ddigidol drwy Hwb **hwb.llyw.cymru** ac ar ffurf copi caled o **www.gwales.com**
I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost **adnoddaucymraeg@llyw.cymru**

**Rhifedd Cenedlaethol** – helpu eich plentyn gyda rhifedd. **www.nationalnumeracy.org.uk/your-childs-maths**
(Dim ond yn Saesneg mae'r wefan hon ar gael.)

**Bitesize** – adnodd ar-lein am ddim y BBC i helpu plant yn y DU gyda'u gwaith ysgol. **www.bbc.co.uk/bitesize**